Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASO:
97/2023
DYDDIAD CYHOEDDI:
05/10/2023

# **Cronfa Cymorth Dewisol:**
# Adroddiad dadansoddi

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83504-820-7

**Cronfa Cymorth Dewisol:**
Adroddiad dadansoddi

Sheilla Ferraz-Luz (Yr Is-adran Tystiolaeth a Chefnogaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant, Llywodraeth Cymru)

Adroddiad Ymchwil Llawn: Ferraz-Luz, S. (2023). *Cronfa Cymorth Dewisol: adroddiad dadansoddi*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 97/2023.
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/y-gronfa-cymorth-dewisol-adroddiad-dadansoddi

Safbwyntiau'r ymchwilwyr sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Sheilla Ferraz-Luz
Yr Is-adran Tystiolaeth a Chefnogaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: ymchwilcyfiawndercymdeithasol@llyw.cymru

## Tabl cynnwys


Rhestr o thablau ..... 2

Rhestr o ffigurau ..... 3

1. Cyflwyniad ..... 4
2. Dyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng a dderbyniwyd gan unigolion yn ôl oedran ..... 5
3. Y gwahaniaethau rhwng Taliadau Cymorth mewn Argyfwng a Thaliadau Cymorth i Unigolion ..... 7
4. Budd-daliadau: Credyd Cynhwysol a budd-daliadau gwaddol ..... 10
5. Dangosyddion economaidd: parseli bwyd i oedolion ac anweithgarwch economaidd ..... 11
6. Dangosyddion plant mewn tlodi ..... 14
7. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ..... 16
8. Casgliad ..... 18

**Rhestr o thablau**

Tabl 1: Dyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng yn ôl oedran (mis Mai 2022 i fis Mai 2023) ..... 5
Tabl 2: Y gyfran o’r boblogaeth sy'n derbyn dyfarniadau drwy’r Gronfa neu fudd-daliadau penodol, yn ôl awdurdod lleol ..... 10
Tabl 3: Y gyfran o'r boblogaeth sy'n cael dyfarniadau drwy’r Gronfa, a dangosyddion economaidd eraill yn ôl awdurdod lleol ..... 12
Tabl 4: Y gyfran o’r boblogaeth sy'n cael dyfarniadau drwy’r Gronfa, a dangosyddion tlodi plant, yn ôl awdurdod lleol ..... 14
Tabl 5: Canran yr ardaloedd bach yn y 10% mwyaf difreintiedig ledled Cymru, yn ôl awdurdod lleol ..... 17

**Rhestr o ffigurau**

Ffigur 1: Dosbarthiad nifer y Taliadau Cymorth mewn Argyfwng a gafodd y rhai sy'n derbyn Taliadau Cymorth mewn Argyfwng, yn ôl oedran (mis Mai 2022 i fis Mai 2023) ....... 6
Ffigur 2: Nifer cyfartalog y Taliadau Cymorth mewn Argyfwng yn ôl oedran .......................... 6
Ffigur 3: Dosbarthiad dyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng a Thaliadau Cymorth i Unigolion yn ôl grŵp oedran ........................................................................... 7
Ffigur 4: Dosbarthiad gwahanol ffyrdd o gael mynediad at y Gronfa yn ôl oedran ................. 8

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Gronfa Cymorth Dewisol (y Gronfa) yn cynnig dau fath o grant. Mae Taliadau Cymorth i Unigolion yn helpu pobl i fyw yn annibynnol yn eu cartref neu mewn eiddo y maent yn symud iddo. Mae Taliadau Cymorth mewn Argyfwng yn helpu â chostau hanfodol megis bwyd, nwy, trydan, dillad neu deithio mewn achos o argyfwng.

1.2 Mae dau nod i'r adroddiad hwn. Y cyntaf yw cyflwyno dadansoddiad o'r rhai sy'n elwa ar y Gronfa o ran eu hoedran, y ffyrdd y mae unigolion yn cael mynediad at daliadau'r Gronfa, a faint o weithiau y mae'r Gronfa yn cael ei defnyddio fesul unigolyn. Yr ail yw archwilio dyfarniadau'r Gronfa yn y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru i weld a oes unrhyw batrymau newydd mewn dangosyddion economaidd penodol a allai egluro nifer y dyfarniadau ym mhob awdurdod lleol.

1.3 Mae'r data sy'n gysylltiedig â'r Gronfa yn cael eu cyflenwi i Lywodraeth Cymru gan ein darparwr gwasanaeth NEC Software Solutions UK. Nid yw'r wybodaeth reoli hon wedi bod drwy'r un broses sicrhau ansawdd ag ystadegau swyddogol ac mae'n bosibl y bydd y data yn cael eu diwygio yn y dyfodol[1]. At hynny, cafwyd y data ar gyfer yr adroddiad dadansoddi ad-hoc hwn fesul cam, felly mae gan rai o'r tablau ddyddiadau sy'n cyfeirio at gyfnodau ychydig yn wahanol. Gwneir y dadansoddiad mewn gwerthoedd absoliwt y pen. Mae hyn yn golygu bod niferoedd absoliwt wedi cael eu rhannu yn ôl nifer yr unigolion neu nifer yr aelwydydd, neu nifer y plant yn ôl y gwahanol ddangosyddion a ddefnyddiwyd.

1.4 Mae'n bwysig nodi bod cyfuniad o lawer o wahanol ddangosyddion yn egluro nifer y dyfarniadau mewn awdurdod lleol, yn hytrach na dim ond un ffactor. Ceir cipolwg o rai o'r dangosyddion hyn yma, fel "unigolion nad ydynt mewn cyflogaeth sy'n cael Credyd Cynhwysol", "cyfradd anweithgarwch economaidd", a "disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim". Mae yna ddangosyddion economaidd eraill yn adlewyrchu'r cynnydd mewn chwyddiant a chostau byw ac, er eu bod yn berthnasol i'r data dadansoddi hwn, nid oedd modd dod o hyd iddynt ar lefel awdurdod lleol.

---

[1] I gael data lefel uchel rheolaidd ar daliadau'r Gronfa, edrychwch ar [StatsCymru](StatsCymru).

## 2. Dyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng a dderbyniwyd gan unigolion yn ôl oedran[2]

2.1 Rhwng mis Mai 2022 a mis Mai 2023, unigolion rhwng 30 a 39 oed gafodd y nifer uchaf o ddyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng. Ar ben hynny, rhoddwyd 59% o'r dyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng i unigolion yn y cromfachau oedran 16-29 a 30-39 oed. Mewn cymhariaeth, roedd unigolion 70 oed a hŷn yn cyfrif am 2% o'r dyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng (Tabl 1).

**Tabl 1: Dyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng yn ôl oedran (mis Mai 2022 i fis Mai 2023)**

| Oedran (blynyddoedd) | Nifer yr unigolion | Cyfran yr unigolion a gafodd ddyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng yn ôl oedran (%) |
|---:|---:|---:|
| 16-29 | 39777 | 26 |
| 30-39 | 49693 | 33 |
| 40-49 | 30596 | 20 |
| 50-59 | 19878 | 13 |
| 60-69 | 8810 | 6 |
| 70+ | 2437 | 2 |

Ffynhonnell: Data NEC ar ddyfarniadau'r Gronfa rhwng mis Mai 2022 a mis Mai 2023.


---

[2] Gwneir y dadansoddiad o oedran gyda chronfa ddata sydd ond yn cynnwys Taliadau Cymorth mewn Argyfwng. Mae rhai ymgeiswyr wedi'u tynnu o'r set ddata. Mae hyn yn cynnwys ceisiadau heb rif yswiriant gwladol, ceisiadau gyda rhif yswiriant gwladol "dymi" (ymgeiswyr sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches), ceisiadau sydd â dyddiad geni annilys neu goll, ac unrhyw geisiadau sydd yn yr arfaeth, hy dim ond ceisiadau y gwnaed penderfyniad yn eu cylch sydd wedi'u cynnwys. Ers 1 Ebrill 2023, mae pob ymgeisydd wedi dod yn gymwys i gael 3 thaliad mewn cyfnod treigl o 12 mis yn hytrach na 5 taliad. Felly, mae'n bwysig nodi bod y set ddata yn cynnwys dau fis pan fydd y meini prawf newydd o uchafswm o dri dyfarniad yn berthnasol (mis Ebrill 2023 a mis Mai 2023).

2.2 O ran faint o daliadau a gafodd unigolion (o uchafswm o bum taliad hyd fis Mawrth 2023)[3], unwaith eto y grwpiau oedran ieuengaf a hawliodd Daliadau Cymorth mewn Argyfwng y nifer uchaf o weithiau. Mewn gwirionedd, mae nifer cyfartalog y taliadau yn gostwng wrth i oedran gynyddu. Dangosir hyn yn y Ffigurau 1 a 2 isod sy'n dangos y gyfran o'r Taliadau Cymorth mewn Argyfwng a dalwyd i unigolion.


2.3 Ymhlith y rhai 40 oed a hŷn roedd taliadau'r Gronfa ar gyfartaledd yn cael eu gwneud ddwywaith, o gymharu â thri taliad ar gyfartaledd i unigolion yn y cromfachau oedran 16-29 a 30-39 oed.

**Ffigur 1: Dosbarthiad nifer y Taliadau Cymorth mewn Argyfwng a gafodd y rhai sy'n derbyn Taliadau Cymorth mewn Argyfwng, yn ôl oedran (mis Mai 2022 i fis Mai 2023)**




Ffynhonnell: Data NEC ar ddyfarniadau'r Gronfa rhwng mis Mai 2022 a mis Mai 2023.

**Ffigur 2: Nifer cyfartalog y Taliadau Cymorth mewn Argyfwng yn ôl oedran**




Ffynhonnell: Data NEC ar ddyfarniadau'r Gronfa rhwng mis Mai 2022 a mis Mai 2023.


[3] Fel y soniwyd yn nhroednodyn 1, mae'r meini prawf yn awr wedi newid ac ers mis Ebrill 2023 mae uchafswm o dri thaliad yn hytrach na phump.

## 3. Y gwahaniaethau rhwng Taliadau Cymorth mewn Argyfwng a Thaliadau Cymorth i Unigolion

3.1 Er bod 97% o ddyfarniadau’r Gronfa yn Daliadau Cymorth mewn Argyfwng a'r 3% sy'n weddill yn Daliadau Cymorth i Unigolion ym mhob grŵp oedran, nid yw dosbarthiad y dyfarniadau yn ôl oedran yr un fath ar gyfer dyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng a Thaliadau Cymorth i Unigolion.

3.2 Mae gan unigolion o fewn y cromfachau oedran 16-29 a 30-39 oed fwy o ddyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng, tra bod cyfran uwch o unigolion hŷn yn hawlio dyfarniadau Taliadau Cymorth i Unigolion [4] (Ffigur 3).

**Ffigur 3: Dosbarthiad dyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng a Thaliadau Cymorth i Unigolion yn ôl grŵp oedran**




Ffynhonnell: Data NEC ar ddyfarniadau’r Gronfa rhwng mis Mai 2022 a mis Mai 2023.

3.3 Mae archwilio dosbarthiad dyfarniadau’r Gronfa yn ôl awdurdodau lleol a chategorïau oedran yn dangos nad yw'r cymedr ar gyfer pob awdurdod lleol yn wahanol i gymedr cyffredinol yr holl awdurdodau lleol gyda'i gilydd, hy nid oes unrhyw awdurdod lleol sy'n cael ei amlygu fel allanolyn. Mewn geiriau eraill, mae


[4] Roedd hyn yn seiliedig ar sampl gyda rhychwant amser ychydig yn wahanol rhwng mis Mawrth 2022 a mis Mawrth 2023 yn cynnwys ceisiadau am Daliadau Cymorth mewn Argyfwng ac am Daliadau Cymorth i Unigolion.

dosbarthiad cyfanswm dyfarniadau'r Gronfa yn ôl oedran yn debyg yn gyffredinol i bob awdurdod lleol yn unigol.

3.4 Yn yr un modd, o fewn pob grŵp oedran, mae nifer cyfartalog y taliadau a gafwyd gan dderbynwyr o fewn pob awdurdod lleol yn debyg (dim mwy nag 1 yn wahanol) i'r cyfartaledd ar draws pob awdurdod lleol.

3.5 O ran hygyrchedd, mae 99% o'r unigolion ar draws y cromfachau oedran yn cael mynediad at y Gronfa ar-lein. Fodd bynnag, pan edrychwn ar bawb sy'n cael mynediad ati ar-lein o gymharu â'r rhai sy'n cael mynediad ati dros y ffôn, ar gyfartaledd, mae grwpiau oedran hŷn yn cael mynediad dros y ffôn yn fwy na'r rhai mewn grwpiau oedran iau.[5]

**Ffigur 4: Dosbarthiad gwahanol ffyrdd o gael mynediad at y Gronfa yn ôl oedran**




Ffynhonnell: Data NEC ar ddyfarniadau'r Gronfa rhwng mis Mai 2022 a mis Mai 2023.

[5] Gellir gwneud ceisiadau yn ysgrifenedig hefyd, ond mae llai na 0.01% o'r ceisiadau a ddaw i law yn rhai ysgrifenedig.

3.6 I archwilio dyfarniadau’r Gronfa, rhennir gweddill yr adroddiad yn bedwar maes gwahanol:

- Budd-daliadau
- Dangosyddion economaidd
- Dangosyddion tlodi plant
- Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

3.7 Mae'r awdurdodau lleol sydd â'r lefelau uchaf o ddyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng a Thaliadau Cymorth i Unigolion yn cael eu nodi ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2022 a mis Ionawr 2023. Yn dilyn y ffigurau hyn, archwilir a oes gan yr awdurdodau lleol hyn hefyd lefelau uchel o ddangosyddion eraill, megis unigolion sy'n cael budd-daliadau, cyfraddau uchel o anweithgarwch economaidd, neu barseli bwyd yn cael eu danfon i blant. Mae’r celloedd a amlygir yn cyfateb i gyfran uwch na'r cyfartaledd o'r holl awdurdodau lleol gyda'i gilydd. Yn y drafodaeth yn dilyn pob tabl, bydd y ffocws ar y tri neu bedwar awdurdod lleol a oedd â’r niferoedd uchaf o ddyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng a Thaliadau Cymorth i Unigolion y pen.

## 4. Budd-daliadau: Credyd Cynhwysol a budd-daliadau gwaddol

4.1 Mae'r tabl a ganlyn (Tabl 2) yn dangos nifer y dyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng a Thaliadau Cymorth i Unigolion fel cyfran o'r boblogaeth ym mhob awdurdod lleol, ochr yn ochr â'r gyfran o'r boblogaeth sy'n cael Credyd Cynhwysol nad ydynt mewn cyflogaeth; sy'n cael Cymhorthdal Incwm; a sy'n cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

**Tabl 2: Y gyfran o'r boblogaeth sy'n derbyn dyfarniadau drwy'r Gronfa neu fudd-daliadau penodol, yn ôl awdurdod lleol**

| Awdurdod Lleol | Dyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng | Unigolion ar Gredyd Cynhwysol nad ydynt mewn cyflogaeth | Cymhorthdal Incwm | Lwfans Cyflogaeth a Chymorth | Dyfarniadau Taliadau Cymorth i Unigolion |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 7% | 6% | 0.4% | 5% | 0.4% |
| Gwynedd | 8% | 6% | 0.4% | 4% | 0.6% |
| Conwy | 8% | 6% | 0.3% | 4% | 0.3% |
| Sir Ddinbych | 11% | 7% | 0.5% | 5% | 0.5% |
| Sir y Fflint | 8% | 6% | 0.2% | 3% | 0.3% |
| Wrecsam | 14% | 7% | 0.4% | 4% | 0.6% |
| Powys | 3% | 4% | 0.2% | 3% | 0.2% |
| Ceredigion | 3% | 5% | 0.2% | 4% | 0.2% |
| Sir Benfro | 6% | 6% | 0.4% | 4% | 0.2% |
| Sir Gaerfyrddin | 8% | 6% | 0.4% | 5% | 0.5% |
| Abertawe | 11% | 8% | 0.4% | 5% | 0.4% |
| Castell-nedd Port Talbot | 13% | 8% | 0.6% | 6% | 0.6% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 11% | 7% | 0.5% | 5% | 0.4% |
| Bro Morgannwg | 9% | 6% | 0.4% | 4% | 0.4% |
| Caerdydd | 12% | 8% | 0.4% | 4% | 0.7% |
| Rhondda Cynon Taf | 15% | 8% | 0.6% | 6% | 0.4% |
| Merthyr Tudful | 23% | 9% | 0.6% | 7% | 0.5% |
| Caerffili | 13% | 8% | 0.5% | 6% | 0.4% |
| Blaenau Gwent | 21% | 10% | 0.6% | 7% | 0.5% |
| Torfaen | 14% | 9% | 0.4% | 5% | 0.7% |
| Sir Fynwy | 4% | 4% | 0.2% | 3% | 0.3% |
| Casnewydd | 17% | 9% | 0.4% | 4% | 0.8% |
| Cymru | 11% | 10% | 0.5% | 6% | 0.5% |

Ffynhonnell: Data NEC ar ddyfarniadau'r Gronfa rhwng mis Ebrill 2022 a mis Ionawr 2023; Unigolion ar Gredyd Cynhwysol nad ydynt mewn cyflogaeth: Ystadegau budd-daliadau yr Adran Gwaith a Phensiynau (Stat-Xplore) Ionawr 2023; Cymhorthdal Incwm: Ystadegau budd-daliadau yr Adran Gwaith a Phensiynau (Stat-Xplore) Awst 2022; Lwfans Cyflogaeth a Chymorth: Ystadegau budd-daliadau yr Adran Gwaith a Phensiynau (Stat-Xplore) Tachwedd 2022.

4.2 Y pedwar awdurdod lleol â'r nifer uchaf o ddyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng y pen oedd Merthyr Tudful, Blaenau Gwent, Casnewydd a Rhondda Cynon Taf. Roedd Blaenau Gwent, Merthyr Tudful, Casnewydd, a Rhondda Cynon Taf hefyd yn bedwar o'r awdurdodau lleol â'r gyfran uchaf o unigolion ar Gredyd Cynhwysol nad ydynt mewn cyflogaeth. Ar ben hynny, Blaenau Gwent, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf oedd hefyd â'r gyfran uchaf o bobl yn cael Cymhorthdal Incwm a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

4.3 Roedd Caerdydd, Torfaen a Chasnewydd ymhlith yr awdurdodau lleol â'r nifer uchaf o ddyfarniadau Taliadau Cymorth i Unigolion y pen. Roedd Torfaen hefyd â'r lefelau uchaf o Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ac o unigolion ar Gredyd Cynhwysol nad ydynt mewn cyflogaeth. Roedd gan Gasnewydd gyfran uwch na'r cyfartaledd o unigolion ar Gredyd Cynhwysol nad ydynt mewn cyflogaeth.

## 5. Dangosyddion economaidd: parseli bwyd i oedolion ac anweithgarwch economaidd

5.1 Mae'r tabl a ganlyn (Tabl 3) yn dangos nifer y dyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng a Thaliadau Cymorth i Unigolion fel cyfran o'r boblogaeth ym mhob awdurdod lleol, ochr yn ochr â nifer y parseli bwyd a ddosbarthwyd i oedolion y pen a’r gyfradd anweithgarwch economaidd yn yr awdurdod lleol.

**Tabl 3: Y gyfran o'r boblogaeth sy'n cael dyfarniadau drwy'r Gronfa, a dangosyddion economaidd eraill yn ôl awdurdod lleol**

| Awdurdod Lleol | Dyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng | Parseli bwyd a ddosbarthwyd i oedolion | Cyfradd anweithgarwch economaidd | Dyfarniadau Taliadau Cymorth i Unigolion |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 7% | 5% | 19% | 0.4% |
| Gwynedd | 8% | 3% | 18% | 0.6% |
| Conwy | 8% | 1% | 19% | 0.3% |
| Sir Ddinbych | 11% | 4% | 24% | 0.5% |
| Sir y Fflint | 8% | 3% | 16% | 0.3% |
| Wrecsam | 14% | 4% | 21% | 0.6% |
| Powys | 3% | 2% | 15% | 0.2% |
| Ceredigion | 3% | 2% | 20% | 0.2% |
| Sir Benfro | 6% | 2% | 21% | 0.2% |
| Sir Gaerfyrddin | 8% | 3% | 23% | 0.5% |
| Abertawe | 11% | 4% | 18% | 0.4% |
| Castell-nedd Port Talbot | 13% | 3% | 26% | 0.6% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 11% | 3% | 23% | 0.4% |
| Bro Morgannwg | 9% | 2% | 14% | 0.4% |
| Caerdydd | 12% | 3% | 18% | 0.7% |
| Rhondda Cynon Taf | 15% | 5% | 22% | 0.4% |
| Merthyr Tudful | 23% | 7% | 24% | 0.5% |
| Caerffili | 13% | 4% | 21% | 0.4% |
| Blaenau Gwent | 21% | 5% | 21% | 0.5% |
| Torfaen | 14% | 4% | 24% | 0.7% |
| Sir Fynwy | 4% | 3% | 19% | 0.3% |
| Casnewydd | 17% | 2% | 22% | 0.8% |
| Cymru | 11% | 5% | 20% | 0.5% |

Ffynhonnell: Data NEC ar ddyfarniadau'r Gronfa rhwng mis Ebrill 2022 a mis Ionawr 2023; Nifer y parseli bwyd a ddosbarthwyd i oedolion: Ystadegau Diwedd Blwyddyn - Ymddiriedolaeth Trussell (data crai) mis Ebrill 2021 i fis Mawrth 2022; Amcangyfrifon poblogaeth i gael amcangyfrifon y pen: Amcangyfrifon poblogaeth ar lefel genedlaethol yn ôl blwyddyn, oedran a gwlad yn y DU (llyw.cymru) Rhagfyr 2022; Cyfradd anweithgarwch economaidd: Cyfraddau anweithgarwch economaidd (ac eithrio myfyrwyr) yn ôl ardal leol yng Nghymru a blwyddyn (llyw.cymru) Medi 2022; Amcangyfrifon poblogaeth i gael amcangyfrifon y pen: Amcangyfrifon poblogaeth ar lefel genedlaethol yn ôl blwyddyn, oedran a gwlad yn y DU (llyw.cymru) Rhagfyr 2022.

5.2 Y tri awdurdod lleol â'r nifer uchaf o ddyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng a Thaliadau Cymorth i Unigolion y pen: Merthyr Tudful, Blaenau Gwent a Rhondda Cynon Taf oedd yr awdurdodau lleol lle dosbarthwyd y rhan fwyaf o'r parseli bwyd i oedolion y pen. Mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith bod y ffigurau hyn yn cyfeirio at barseli bwyd ac nid at oedolion sy'n derbyn parseli bwyd. Felly, gallai fod mwy nag un parsel fesul oedolyn[6].

5.3 Roedd gan y tri awdurdod lleol hyn gyfradd uwch na'r cyfartaledd o anweithgarwch economaidd hefyd.

5.4 Mae'r term anweithgarwch economaidd yn dynodi unigolion nad ydynt yn rhan o'r farchnad lafur, nad ydynt wedi chwilio am waith yn ystod y pedair wythnos ddiwethaf ac nad ydynt ar gael i ddechrau gweithio. Mae'n cynnwys myfyrwyr, pensiynwyr, pobl sy'n gofalu am deulu neu gartref, y rhai â salwch a'r rhai sy'n cael eu dosbarthu fel gweithwyr sydd wedi anobeithio. Amcangyfrifir y gyfradd anweithgarwch economaidd drwy rannu lefel yr anweithgarwch ar gyfer y rhai rhwng 16 a 64 oed â'r boblogaeth ar gyfer y grŵp oedran hwnnw. At ddibenion cymharu, roedd y gyfradd anweithgarwch economaidd yng Nghymru yn 20% yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Medi 2022.

5.5 Roedd Casnewydd a Thorfaen ymhlith yr awdurdodau lleol â'r nifer uchaf o ddyfarniadau Taliadau Cymorth i Unigolion y pen, a hefyd lle mae cyfradd uwch o anweithgarwch economaidd.

[6] At hynny, dylai ffigurau Ymddiriedolaeth Trussell gael eu defnyddio fel dangosydd yn unig; mae'r ffigurau hyn yn ymwneud dim ond â banciau bwyd yn rhwydwaith Ymddiriedolaeth Trussell, felly ni ellir eu defnyddio i egluro'n llawn raddfa'r defnydd o fanciau bwyd yng Nghymru, nac o fewn awdurdodau lleol unigol.

## 6. Dangosyddion plant mewn tlodi

6.1 Mae'r tabl a ganlyn (Tabl 4) yn dangos nifer y dyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng fel y gyfran o'r boblogaeth ym mhob awdurdod lleol, ochr yn ochr â nifer y parseli bwyd a ddosbarthwyd i blant y pen, cyfran yr aelwydydd ar Gredyd Cynhwysol â'r hawl i fudd-daliadau plant, cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim[7] a chyfran y plant sy'n byw mewn teuluoedd ar incwm isel cymharol.

**Tabl 4: Y gyfran o'r boblogaeth sy'n cael dyfarniadau drwy'r Gronfa, a dangosyddion tlodi plant, yn ôl awdurdod lleol**

| Awdurdod Lleol | Dyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng | Parseli bwyd a ddosbarthwyd i blant y pen | Aelwydydd ar Gredyd Cynhwysol â'r hawl i fudd-daliadau plant | Plant sy'n byw mewn teuluoedd ar incwm isel cymharol | Disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim | Dyfarniadau Taliadau Cymorth i Unigolion |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 7% | 3% | 7% | 24% | 3% | 0.4% |
| Gwynedd | 8% | 4% | 6% | 24% | 6% | 0.6% |
| Conwy | 8% | 4% | 7% | 23% | 11% | 0.3% |
| Sir Ddinbych | 11% | 15% | 8% | 23% | 23% | 0.5% |
| Sir y Fflint | 8% | 13% | 8% | 19% | 18% | 0.3% |
| Wrecsam | 14% | 6% | 9% | 21% | 10% | 0.6% |
| Powys | 3% | 13% | 5% | 23% | 21% | 0.2% |
| Ceredigion | 3% | 2% | 5% | 26% | 5% | 0.2% |
| Sir Benfro | 6% | 4% | 7% | 25% | 5% | 0.2% |
| Sir Gaerfyrddin | 8% | 9% | 7% | 23% | 18% | 0.5% |
| Abertawe | 11% | 26% | 8% | 21% | 52% | 0.4% |
| Castell-nedd Port Talbot | 13% | 7% | 9% | 21% | 18% | 0.6% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 11% | 7% | 8% | 20% | 22% | 0.4% |
| Bro Morgannwg | 9% | 10% | 7% | 16% | 19% | 0.4% |
| Caerdydd | 12% | 23% | 8% | 22% | 73% | 0.7% |
| Rhondda Cynon Taf | 15% | 12% | 8% | 24% | 21% | 0.4% |
| Merthyr Tudful | 23% | 5% | 11% | 25% | 7% | 0.5% |
| Caerffili | 13% | 13% | 9% | 23% | 30% | 0.4% |
| Blaenau Gwent | 21% | 9% | 10% | 27% | 20% | 0.5% |
| Torfaen | 14% | 8% | 10% | 22% | 17% | 0.7% |
| Sir Fynwy | 4% | 4% | 5% | 16% | 6% | 0.3% |
| Casnewydd | 17% | 2% | 11% | 24% | 6% | 0.8% |
| Cymru | 11% | 10% | 8% | 22% | 18% | 0.5% |

[7] Mae'r ffigurau hyn yn cyfeirio at gyfnod cyn cyflwyno prydau ysgol am ddim mewn prifysgolion.

Ffynhonnell: Data NEC ar ddyfarniadau'r Gronfa rhwng mis Ebrill 2022 a mis Ionawr 2023; Aelwydydd ar Gredyd Cynhwysol â'r hawl i fudd-daliadau plant: Ystadegau budd-daliadau yr Adran Gwaith a Phensiynau (Stat-Xplore) Ionawr 2023; Disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a blwyddyn (llyw.cymru) 2021/2022; Amcangyfrifon poblogaeth i gael amcangyfrifon y pen: Amcangyfrifon poblogaeth ar lefel genedlaethol fesul blwyddyn, oedran, gwlad yn y DU (llyw.cymru) Rhagfyr 2022; Amcangyfrifon aelwydydd i gael amcangyfrifon yn ôl aelwydydd: Aelwydydd yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn (llyw.cymru) Medi 2021; Nifer y parseli bwyd a ddosbarthwyd i blant: Ystadegau Diwedd Blwyddyn - Ymddiriedolaeth Trussell (data crai) rhwng mis Ebrill 2021 a mis March 2022. Cyfran y plant (o dan 16 oed) mewn teuluoedd ar incwm isel: Plant mewn teuluoedd ar incwm isel: ystadegau ardal leol 2014 i 2022 - GOV.UK (www.gov.uk)

6.2 Y tri awdurdod lleol â'r nifer uchaf o ddyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng: Blaenau Gwent, Merthyr Tudful a Chasnewydd hefyd oedd yr awdurdodau lleol â'r gyfran uchaf o aelwydydd yn cael Credyd Cynhwysol â'r hawl i fudd-daliadau plant, y gyfran uchaf o blant sy'n byw mewn teuluoedd ar incwm isel cymharol[8] a'r gyfran uchaf o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn dangos bod cyllid cymorth y Gronfa wir yn helpu teuluoedd ar incwm isel â phlant.

6.3 O'r awdurdodau lleol â'r nifer uchaf o ddyfarniadau Taliadau Cymorth i Unigolion y pen, sef Casnewydd, Torfaen a Chaerdydd, roedd Caerdydd hefyd yn un o'r awdurdodau lleol â'r nifer uchaf o barseli bwyd wedi'u dosbarthu i blant y pen a'r gyfran uchaf o blant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Roedd gan Dorfaen hefyd y lefelau uchaf o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r gyfran uchaf o aelwydydd ar Gredyd Cynhwysol â'r hawl i fudd-daliadau plant.

[8] Aelwydydd sy'n ennill llai na 60% o'r incwm canolrifol ar gyfer y flwyddyn gyfredol (yn yr achos hwn 2022).

## 7. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

7.1 Roedd yr awdurdodau lleol â'r nifer uchaf o ddyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng y pen (Merthyr Tudful, Blaenau Gwent, Casnewydd a Rhondda Cynon Taf) ymhlith yr awdurdodau lleol â'r gyfran uchaf o ardaloedd bach yn perthyn i'r 10% o'r ardaloedd bach mwyaf difreintiedig yng Nghymru (Tabl 5):

- Mae 22% o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is[9] Merthyr Tudful ymysg y 10% o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is mwyaf difreintiedig yng Nghymru.
- Mae 18% o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is Rhondda Cynon Taf ymysg y 10% o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is mwyaf difreintiedig yng Nghymru.
- Mae 24% o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is Casnewydd ymysg y 10% o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is (ardaloedd bach) mwyaf difreintiedig yng Nghymru.
- Mae 13% o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is Blaenau Gwent ymysg y 10% o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

[9] Daearyddiaeth ystadegol yw Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is sy'n cynrychioli ardal fach â phoblogaeth o tua 1,600 o bobl.

**Tabl 5: Canran yr ardaloedd bach yn y 10% mwyaf difreintiedig ledled Cymru, yn ôl awdurdod lleol**

| | Canran |
|---|---|
| Ynys Môn | 2 |
| Gwynedd | 3 |
| Conwy | 6 |
| Sir Ddinbych | 12 |
| Sir y Fflint | 3 |
| Wrecsam | 7 |
| Powys | 1 |
| Ceredigion | 2 |
| Sir Benfro | 6 |
| Sir Gaerfyrddin | 4 |
| Abertawe | 11 |
| Castell-nedd Port Talbot | 15 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 7 |
| Bro Morgannwg | 4 |
| Caerdydd | 18 |
| Rhondda Cynon Taf | 18 |
| Merthyr Tudful | 22 |
| Caerffili | 10 |
| Blaenau Gwent | 13 |
| Torfaen | 5 |
| Sir Fynwy | 0 |
| Casnewydd | 24 |

Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (llyw.cymru) Tachwedd 2019.

## 8. Casgliad

8.1 Mae 97% o ddyfarniadau'r Gronfa yn Daliadau Cymorth mewn Argyfwng a'r 3% sy'n weddill yn Daliadau Cymorth i Unigolion ym mhob grŵp oedran. Fodd bynnag, nid yw dosbarthiad dyfarniadau yn ôl oedran yr un peth ar gyfer dyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng a dyfarniadau Taliadau Cymorth i Unigolion: mae gan unigolion o fewn cromfachau oedran 16-29 a 30-39 oed fwy o ddyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng, tra bod cyfran uwch o unigolion hŷn yn hawlio dyfarniadau Taliadau Cymorth i Unigolion.

8.2 O ran hygyrchedd, mae 99% o'r unigolion ar draws y cromfachau oedran yn cael mynediad at y Gronfa ar-lein. Fodd bynnag, o gymharu mynediad ar-lein â mynediad dros y ffôn, mae grwpiau oedran hŷn yn cael mynediad dros y ffôn yn fwy na'r rhai mewn grwpiau oedran iau.

8.3 Rhwng mis Mai 2022 a mis Mai 2023, unigolion rhwng 30 a 39 oed gafodd y nifer uchaf o ddyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng. Ar ben hynny, rhoddwyd 59% o'r dyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng i unigolion yn y cromfachau oedran 16-29 a 30-39 oed. Mewn cymhariaeth, roedd unigolion 70 oed a hŷn yn cyfrif am 2% o'r dyfarniadau Taliadau Cymorth mewn Argyfwng.

8.4 O ran nifer y taliadau a dderbyniodd unigolion (o uchafswm o bum taliad hyd fis Mawrth 2023), y grwpiau oedran ieuengaf a hawliodd Daliadau Cymorth mewn Argyfwng y nifer uchaf o weithiau (3 gwaith ar gyfartaledd) ac mae nifer cyfartalog y taliadau yn gostwng wrth i oedran gynyddu.

8.5 Mae ail ran yr adroddiad hwn yn ystyried y rhai sy'n cael dyfarniadau drwy'r Gronfa mewn perthynas â'r awdurdodau lleol. Mae'r dadansoddiad hwn wedi dangos bod dyfarniadau drwy'r Gronfa ar gyfer Taliadau Cymorth mewn Argyfwng - sy'n helpu i dalu am gostau hanfodol megis bwyd, nwy, trydan, dillad neu deithio mewn achos o argyfwng – yn tueddu i fod yn uwch o ran crynodiad mewn awdurdodau lleol sy'n cynnwys y canlynol:

- the highest proportion of people not in employment receiving UC; y gyfran uchaf o
- y gyfran uchaf o bobl sy'n cael budd-daliadau gwaddol fel cymhorthdal incwm a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth

- y gyfradd uchaf o anweithgarwch economaidd
- y lefel uchaf o barseli bwyd a ddosberthir i oedolion y pen
- y gyfran uchaf o ddysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim
- y gyfran uchaf o blant sy'n byw mewn teuluoedd ar incwm isel cymharol
- y gyfran uchaf o bobl sy'n cael Credyd Cynhwysol â’r hawl i fudd-daliadau plant
- y lefel uchaf o barseli bwyd yn cael eu danfon i blant y pen
- y ganran fwyaf o ardaloedd bach ymhlith y 10% o’r ardaloedd bach mwyaf difreintiedig yng Nghymru